Siarter 5 Pwynt

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig i flaenoriaethu'r 5 thema allweddol a ganlyn, fydd yn cyfrannu tuag at y nod trawsbleidiol o ddileu tlodi ymysg plant erbyn 2020.

1. Rhoi sylw i dlodi incwm a chreu cyflogaeth deg

- Mae budd-daliadau i bobl mewn gwaith, megis Credydau Treth Plant, yn darparu hwb incwm gwir ei angen i deuluoedd sydd mewn swyddi cyflog isel, ac fe ddylid cynyddu'r rhain i godi teuluoedd uwchben y trothwy tlodi
- Fe ddylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig weithio'n effeithiol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r nifer sy'n manteisio ar gredydau treth a budd-daliadau er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael yr hyn y mae ganddynt hawl iddo. Fe ddylid gosod targedau pendant a chyraeddadwy ar gyfer cynyddu'r nifer hwn
- Fe ddylid cynyddu lefelau isafswm cyflog i sicrhau bod gwaith yn ffordd allan o dlodi
- Fe ddylai lefelau isafswm cyflog ar gyfer pobl ifanc 16-17 mlwydd oed fod yn gyfartal ag oedolion, o ystyried bod llawer o'r costau'r un fath (bwyd, ynni, ac yn y blaen). Fe ddylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig feddwl am gau'r bwlch yn gynyddol, gyda'r nod o greu cyfradd unffurf i bawb
- Fe ddylid mynd i'r afael â'r anghymhellion i waith ac i hyfforddiant yn y gwaith. Y mae aelwydydd sy'n symud o fudd-dal i waith neu hyfforddiant yn aml yn colli cyfradd sylweddol o'u hincwm, e.e. budd-daliadau prydau bwyd ysgol am ddim, budd-daliadau tai, ac yn y blaen. Fe allai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ystyried sefydlu comisiwn lles i archwilio'r heriau a'r rhwystrau
- Gweithio gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau bod y sgiliau sydd gan weithwyr yn cydweddu â gofynion y cyflogwyr

2. Rhoi sylw i'r rhwyd diogelwch ar gyfer rhieni a gofalwyr

- Sicrhau bod aelwydydd, sy'n canfod eu hunain dros dro allan o'r farchnad lafur neu nad ydynt yn gallu gweithio o ganlyniad i resymau iechyd, yn derbyn lefel o fudd-daliadau sy'n cyrraedd safonau lleiafswm incwm derbyniol

3. Rhoi sylw i'r system drethi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb

- Mae angen system drethi fwy blaengar os yw'r lefelau uchel o anghydraddoldeb i gael eu goresgyn. Ar hyn o bryd, mae'r tlotaf yn talu 38% o'u hincwm mewn trethi, o gymharu â 35% o ran y cyfoethocaf. Mae'r bwlch rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf yn ehangach yn awr nag ar unrhyw adeg yn y 40 mlynedd ddiwethaf, ac mae cyfoeth 10% uchaf o'r boblogaeth dros 100 gwaith yn uwch na chyfoeth y 10% tlotaf
- Wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, fe ddylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd fynd ati i roi sylw i'r bwlch cyflog rhwng y ddau ryw

4. Rhoi sylw i dlodi tanwydd a'r premiwm tlodi ynni

- Bodloni'r gweithredoedd ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig, fel y cânt eu hamlinellu yn Siarter Tlodi Tanwydd Cymru. Mae hyn yn cynnwys adolygu ac ymestyn cyrhaeddiad Lwfans Tanwydd y Gaeaf i'r sawl sy'n dioddef tlodi tanwydd o bob oedran, yn cynnwys aelwydydd gyda phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu cynlluniau a rhaglenni presennol yn effeithiol www.fuelpovertycharterwales.org.uk/

5. Rhoi sylw i dlodi ymysg plant drwy wireddu addewid 2020

- Gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo i weithredu blaenoriaethau Prydeinig allweddol a amlinellir yn y Ddeddf Tlodi Plant 2010 yn ymwneud â chyflogaeth rhieni, cynyddu lefelau sgiliau a gwell cymorth ariannol i deuluoedd

Fe ddylid ystyried yr achos dros ddileu Tlodi ymysg Plant yng nghyd-destun cyfiawnder cymdeithasol, synnwyr economaidd a busnes, a hawliau dynol a hawliau plant.

Cydgysylltir Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru gan
Plant yng Nghymru, 25 Plas Winsor Place, Caerdydd, CF10 3BZ,
Ffôn: 029 2034 2434, E-bost: info@childreninwales.org.uk
www.endchildpovertycymru.org.uk
Ebrill 2010

Children in Wales
Plant yng Nghymru